2,27

# OPENING OF THE

# NEW ROLLING MILL, AT TREDEGAR.

(Davies, John)

The following lines were composed by BRYCHAN, at the opening of the Tredegar New Mill.

Dewch feirdd a cherddorion, dyhidlwche ich odlau:—
Derchefwch orhoian.—Pwy all fod yn fud?
Ar frig yr awelon, aed swn eich caniadau,
O gwmwd i gwmwd, dros wledydd y byd.

Derchefwch orhoian:—mae'n bryd gorfoleddu:—
Llais câu a llawenydd, sy'n lloni pob lle;
Tanguefedd a chariad sy'n awr yn teyrnasu:—
Mae natur yn gwenu, a phobpeth o dde'.

Dewch ddewrfeib Siluria—derchefwch eich penau,
Dydd mawr eich gorfoledd, or diwedd, a ddaeth;
Darfydded pob galar—na chlywer cwynfanau,
O fynwes un gweithiwr, mewn cyni nac aeth.

Darfydded pob ceintach rhwny meistyr a gweithiwr:—
Gwir anian gyfeillgar a lanw pob bron:
Boed didwyll hynawsedd, ac ysbryd dyngarwr,
I'r uchel ar isel, yn dalian a ffon.

Rhaid brysio, rhaid brysio, rhag siomi 'ch dysgwylaid:
Mae'n bryd imi feddwl am destun fy nghan;
A thestun fy mhryddest yw'r hynod adeilad
Sy 'nawr yn Nhredegar, mor glodwych a glân.

Yn mhlith rhyfeddodau dihafal Gwent enwog,
Faih ryfedd gampus waith niwelwyd erio'd;
Mae'n brydferth, mae'n gadarn, mae ell yn fawreddog,—
Mae'n arddrych gorchestawl, ryglyddawl o glod.

Ha! dyma forthwylfa fydd byth yn rhyfeddod,
I fyrdd o beirianwyr campusaf y byd,
Dayseiliwyd gan HOMFRAY ein HIFOR uchelglod,
Anwylddyn Tredegar, ai chyfoeth i gyd.

Hir einioes ac iechyd i'n penial hael galon,
I fod yn ddiffynwr a noddwr i ni;
A bydded ei feibion, a meibion eu meibion,
Yn llywiaw Tredegar am oesau diri'.

Duw'r nefoedd fendithio ei deulu gorenwog,
A myrdd o fendithion anwylaf y nen;
Fe fyddo 'u har weinydd, a'u llywydd galluog,
Fel na b'ont un amser dan gwmwl na llen.

In ELLIS, calonog, ein henwog beirianydd,
Boed iechyd a llwyddiant hyd derfyn ei daith:
Pe na byddai tafod i ddatgan ei glodydd,
Dangosai morthwylfa Tredegar ei waith.

Bydd hon yn gof adail o'i gampus orchestion,
Tra carreg ar garreg heb syflyd o'i lle:—
Ond, pe syrthiai 'r cwbl yn garn o adfeilion,
Gwnae hono lefaru, mai glewddyn oedd E.

Yn awr mi ddybenaf, rhag blino 'ch amynedd,
Er teimlo 'm llesg awen yn dechreu cael hwyl:
Pen—llywydd y bydoedd—cyfranwr pob rhinwedd,
Fendithio bob efnyn o wrthrych ein gwyl.

WM. CHRISTOPHERS, PRINTER, MERLIN OFFICE, NEWPORT.

XZ05 201856